**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Mehefin 16 2025**

**Cyfarfod Hybrid (Aml-leoliad)**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards,
Is-gadeirydd: Cynghorydd Huw Rowlands

**Y Cynghorwyr:**
Delyth Lloyd Griffiths, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Louise Hughes, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn

**Swyddogion:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Cai Larsen a'r Cyng. Gareth A Roberts

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 16 Mehefin 2025 |

**PWNC: Eitem 5.1 Cais Rhif C22/0585/22/LL**
**Tir gerllaw i Oxton Villa Ffordd Haearn Bach, Penygroes, LL54 6NY**

Cais ar gyfer codi tŷ fforddiadwy gyda mynedfa a pharcio a thirweddu cysylltiol (cynllun diwygiedig).

**PENDERFYNIAD: Gwrthod yn unol â'r argymhelliad**

**Rhesymau:**

1. **Nid yw'r bwriad yn briodol fel estyniad rhesymegol i'r anheddle oherwydd ei leoliad a'r ffiniau presennol sy'n gwahanu'r anheddle oddi ar gefn gwlad yn y lleoliad yma. Mae'r datblygiad felly yn groes i ofynion polisïau PCYFF 1, TAI 15 ac 16 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a'r Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy sy'n sicrhau datblygiadau tai fforddiadwy addas fel eithriad ar gyrion ffiniau datblygu.**
2. **Nid yw angen lleol ar gyfer tŷ fforddiadwy hunan-adeiladu wedi ei brofi. Mae maint yr eiddo a'r cwrtil bwriedig yn rhy fawr i alluogi'r eiddo fod yn fforddiadwy yn y dyfodol a chydymffurfio a graddfa dwysedd datblygu. Mae'r datblygiad felly yn groes i ofynion polisïau TAI 15, TAI 16 a PCYFF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a'r Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy sy'n sicrhau datblygiad o raddfa dderbyniol ac a fyddai'n fforddiadwy i'r dyfodol.**
3. **Mae'r datblygiad yn gyfystyr a chodi tŷ newydd yng nghefn gwlad agored heb unrhyw gyfiawnhad ac yn groes i ofynion polisïau PCYFF 1 a pharagraff 6.4.36 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026, a Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 10 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 2 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 16 Mehefin 2025 |

**PWNC: Eitem 5.2 Cais Rhif C19/0154/03/LL**
N**euadd y Farchnad, Stryd yr Eglwys, Blaenau Ffestiniog, LL41 3HP**

Addasu adeilad yn 14 fflat

**PENDERFYNIAD: Gwrthod yn unol â'r argymhelliad**

**Rheswm:**

**Nid oes gwybodaeth ddigonol na chyfredol wedi ei gyflwyno gyda'r cais er mwyn asesu'r bwriad yn erbyn gofynion polisïau PS1, TAI 15 a PS19 Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy a Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud ac effaith ar yr Iaith Gymraeg, darparu tai fforddiadwy, seilwaith gwyrdd a budd net i fioamrywiaeth.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.